NASUWT The Teachers' Union CYMRU Undeb yr Athrawon

# BWLETIN

## Ysgrifenyddion ac Aelodau Pwyllgor Gwaith

### Gweithredu adferiad McCloud

Mae'r camau adfer ar gyfer gwahaniaethu anghyfreithlon yn yr amddiffyniadau trosiannol yng Nghynllun Pensiwn Athrawon Cymru a Lloegr (TPS), a elwir yn aml yn adferiad McCloud, yn cael ei gyflwyno o 1 Hydref 2023 ymlaen. Yr Awdurdod Cyfrifol ar gyfer y TPS yw Adran Addysg (DfE) Llywodraeth San Steffan.

Mae adferiad McCloud yn berthnasol i holl aelodau TPS, a ddechreuodd mewn gwasanaeth pensiynadwy TPS cyn 1 Ebrill 2012, gyda gwasanaeth pensiynadwy TPS rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 (y cyfnod adfer). Mae hyn yn cynnwys athrawon sydd wedi ymddeol ers 1 Ebrill 2015 gyda gwasanaeth pensiynadwy TPS, a hefyd oedolion a phlant sy'n bensiynwyr i aelodau TPS sydd wedi marw yn ystod y cyfnod hwn.

Yn fras, mae'r camau adfer yn golygu y gall athrawon, cyn-athrawon ac aelodau sydd wedi ymddeol ddewis cael eu gwasanaeth am y cyfnod adfer naill ai yn y cynllun cyflog terfynol neu'r cynllun cyfartaledd gyrfa. Mae manylion y camau adfer ar gael yn: **https://www.teacherspensions.co.uk/members/scheme-changes/transitional-protection.aspx.**

Nid yw'r adferiad yn berthnasol i athrawon heb wasanaeth pensiynadwy yn y TPS, gan gynnwys athrawon asiantaeth ac athrawon mewn ysgolion annibynnol nad ydynt yn y TPS. Fodd bynnag, os oes gan athro rywfaint o wasanaeth yn y TPS yn ystod y cyfnod adferol, a pheth gwasanaeth mewn cynllun pensiwn arall yn ystod y cyfnod hwn, bydd adferiad McCloud yn berthnasol i'r gwasanaeth yn y TPS.

Mae adferiad McCloud yn berthnasol i tua 80% o athrawon. Dyma gamau gweithredu allweddol NASUWT mewn cysylltiad â dechrau gweithredu camau adfer McCloud:

**Dychwelyd i'r cynllun cyflog terfynol**

Un o'r camau cyntaf a gymerwyd gan y TPS yw treiglo'n ôl yr holl athrawon a phensiynwyr sydd â gwasanaeth adferadwy McCloud i'r cynllun cyflog terfynol ar gyfer y gwasanaeth hwnnw. Bydd aelodau'r cynllun hyn yn cael penderfynu ar sail adferiad McCloud ar adegau wahanol. Mae pensiynwyr presennol a'u goroeswyr yn y cohort Dewis Ar Unwaith (Immediate Choice (IC)) a bydd athrawon mewn swydd ac aelodau gohiriedig y TPS yn cael penderfynu ar sail adferiad McCloud ar yr adeg y maent yn gwneud cais am eu pensiwn.

Mae athrawon sy'n treiglo'n ôl wedi derbyn yr ohebiaeth e-bost ganlynol:
**www.teacherspensions.co.uk/members/scheme-changes/transitional-protection/rollback-october-2023.aspx.**

Mae amrywiaeth o hyblygrwydd TPS ar gael i aelodau newydd o'r cynllun cyfartaledd gyrfa, sy'n gyfyngedig o ran amser, a gall pob aelod gweithredol fanteisio ar y rhain, oherwydd mae'r treiglo yn ôl yn golygu y bernir bod holl aelodau'r TPS newydd ymuno â'r TPS cyfartaledd gyrfa. Mae TPS wedi ysgrifennu at bob aelod sydd yn treiglo'n ôl ôl am yr amrywiaethau hyn.

**Ceisiadau am bensiwn TPS**

O hyn ymlaen, bydd pob ymgeisydd am bensiwn TPS sydd â gwasanaeth adferadwy McCloud, yn cael manylion o'r dewis ger eu bron o ran adferiad McCloud, a bydd yn rhaid iddynt wneud y dewis hwnnw cyn i'w cais gael ei gymeradwyo a'i brosesu. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn:
**https://www.teacherspensions.co.uk/members/scheme-changes/transitional-protection/planning-to-retire.aspx.**

**Cyhoeddi Datganiadau Gwasanaeth Adferol**

Gan ddechrau gyda phensiynwyr TPS gyda gwasanaeth adferadwy McCloud, bydd aelodau TPS nawr yn dechrau derbyn Datganiadau Gwasanaeth Adferol (Remediable Service Statements (RSSs)), sy’n nodi’r opsiynau sydd ar gael iddynt o dan adferiad McCloud. Mae'r strwythur buddion yn y cynllun cyfartaledd gyrfa a chyflog terfynol yn dra gwahanol, a bydd yr RSS yn nodi'r rhain. Bydd partneriaid sy’n oedolion sy’n goroesi (megis gwragedd a gwŷr gweddw, partneriaid sifil gweddw a phartneriaid rhyngddibynnol eraill) hefyd yn derbyn RSS os yw adferiad McCloud yn berthnasol iddynt hwy. Bydd cyflwyno RSS yn cymryd 18 mis a bydd gan bensiynwyr TPS 18 mis ar ôl iddynt dderbyn eu RSS i arfer eu dewis McCloud – mae hyn er mwyn rhoi digon o amser i bensiynwyr gael mynediad at gyngor ariannol, pe bai ei angen arnynt.

**Ymateb NASUWT**

Mae NASUWT wedi bod yn gweithio gyda’r Adran Addysg (DfE) a Phensiynau Athrawon ers dwy flynedd a hanner ar weithredu adferiad McCloud er mwyn sicrhau bod aelodau’n cael y cyfle gorau i sicrhau buddion pensiwn gwell. Mae hyn yn cynnwys strategaeth gyfathrebu’r Adran Addysg/Pensiynau Athrawon - a dylai aelodau geisio gwybodaeth am weithredu’r adferiad oddi wrth Bensiynau Athrawon, nid NASUWT. Sylwch y gellir darparu gwybodaeth o Bensiynau Athrawon yn y Gymraeg, ar gais – mae’n well gwneud hyn trwy borth Fy Mhensiynau Ar-lein.

Cynghorir aelodau i gofrestru gyda’r porth Pensiynau Athrawon, Fy Mhensiwn Ar-lein, sydd ar wefan Pensiynau Athrawon. Bydd yn brif gyfrwng ar gyfer gwybodaeth am adferiad McCloud:
**https://www.teacherspensions.co.uk/members/member-hub.aspx.**

**Ni ddylai cynrychiolwyr NASUWT, gweithwyr achos neu swyddogion roi cyngor i aelodau am eu dewis o ran adferiad McCloud o dan unrhyw amgylchiadau, nid ar unrhyw faterion cysylltiedig (fel trethiant) nac am gynnwys yr RSS. Dim ond cynghorydd ariannol rheoledig all ddarparu cyngor o’r fath ac nid yw cynrychiolwyr NASUWT wedi’u hindemnio i roi cyngor o’r fath.**

Mae NASUWT yn dymuno i bob aelod sy’n dod o fewn cwmpas adferiad McCloud elwa i’r eithaf drwyddo, ond ni all NASUWT roi cyngor ar hyn. Gellir hysbysu'r aelodau y bydd Weslean yn rhoi cyngor ariannol ar gynnwys yr RSS, unwaith y byddant wedi derbyn hwn, neu ar opsiynau treiglo’n ôl.

Bydd gweithredu adferiad McCloud yn cymryd tua 30 mlynedd, ac ni ddylai aelodau fod yn bryderus os na fyddant yn derbyn RSS yn gynnar yn y broses o gyflwyno'r camau adfer.

Bydd Pwyllgor Cyflogau, Pensiynau ac Amodau Gwasanaeth y Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol yn cynnal sesiwn friffio ar gyfer ysgrifenyddion ac Aelodau’r Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol i roi cyngor ar agweddau allweddol ar yr adferiad, y ffordd orau o ymateb i aelodau sydd ag ymholiadau am yr adferiad ac ateb unrhyw gwestiynau am ei weithredu. Cynhelir y briffio ddydd Llun 6 Tachwedd 2023 am 6yh ac mae manylion sut i ymuno yn: **https://nasuwt-org-uk.zoom.us/webinar/register/WN_Ewfy60l1R4ajmF-wjMhsEA#/registration**. Noder nad yw'r papur briffio hwn ar gyfer aelodau cyffredinol.

siaradwch â ni

E-bost: advice@mail.nasuwt.org.uk
Gwefan: www.nasuwt.org.uk